OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 1386 (Cy.142)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2009

Gwnaed - - - -	*8 Mehefin 2009*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*10 Mehefin 2009*
Yn dod i rym - -	*1 Gorffennaf 2009*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16(1)(a), (e) ac (f), 17(2), 26(1)(a) a (3), a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**),fel y darllenir yr adrannau hynny ynghyd â pharagraff 1A o Atodlen 2 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**).

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i gyfeiriadau at yr offeryn Cymunedol y cyfeirir ato yn rheoliad 2(3) gael eu dehongli fel cyfeiriadau at yr offeryn hwnnw fel y'i diwygir o dro i dro.

Yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno, maent wedi rhoi sylw i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau parthed materion diogelwch bwyd(**3**), cafwyd ymgynghoriad cyhoeddus agored a thryloyw yn ystod y cyfnod y cafodd y Rheoliadau hyn eu llunio a'u gwerthuso.

(**1**) 1990 p. 16. Amnewidiwyd adran 1(1) a (2) (y diffiniad o "food") gan O.S. 2004/2990. Diwygiwyd adrannau 17 a 48 gan Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (p. 28), ("Deddf 1999"). Diwygiwyd adran 48 hefyd gan O.S. 2004/2990. Diwygiwyd adran 26(3) gan Atodlen 6 i Ddeddf 1999. Diwygiwyd adran 53(2) gan baragraff 19 o Atodlen 16 i Ddeddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994 (1994 p.40), Atodlen 6 i Ddeddf 1999 ac O.S. 2004/2990.
Trosglwyddwyd swyddogaethau, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/1972) fel y'i darllenir y af adran 40(3) of Ddeddf 1999. Mae swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llwyodraeth Cymru 2006 (2006 p.32).

(**2**) 1972 p.68. Mewnosodwyd paragraff 1A o Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (2006 p.51).

(**3**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1. Diwygiwyd y Rheoliad hwnnw ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2002/2008 sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch nifer ac enwau Paneli Gwyddonol parhaol Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (OJ Rhif L60, 5.3.2008, t.17).

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2009, maent yn gymwys o ran Cymru ac y maent yn dod i rym ar 1 Gorffennaf 2009.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn —

nid yw "awdurdod bwyd" ("*food authority*") yn cynnwys awdurdod iechyd porthladd;

ystyr "awdurdod iechyd porthladd" ("*port health authority*"), o ran unrhyw ddosbarth iechyd porthladd a sefydlwyd drwy orchymyn o dan adran 2(3) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**4**), yw awdurdod iechyd porthladd ar gyfer y dosbarth hwnnw a sefydlwyd drwy orchymyn o dan adran 2(4) o'r Ddeddf honno;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Diogelwch Bwyd 1990;

ystyr "Rheoliad y Comisiwn" ("*the Commission Regulation*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1881/2006 sy'n gosod y lefelau uchaf ar gyfer halogion penodol mewn deunyddiau bwyd(**5**);

ystyr "Rheoliad y Comisiwn 629/2008" ("*Commission Regulation 629/2008*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 629/2008 yn diwygio Rheoliad (EC) Rhif 1881/2006 sy'n gosod y lefelau uchaf ar gyfer halogion penodol mewn deunyddiau bwyd(**6**);

ystyr "Rheoliad y Comisiwn 124/2009" ("*Commission Regulation 124/2009*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif XXX/2008 sy'n gosod y lefelau uchaf ar gyfer presenoldeb cocsidiostatau neu histomonostatau mewn bwyd sy'n ganlyniad i drosglwyddiad anochel y sylweddau hyn mewn bwyd anifeiliaid ar gyfer rhywogaethau nad ydynt yn darged(**7**);

ystyr "swyddog awdurdodedig" ("*authorised officer*") yw unrhyw berson sydd wedi'i awdurdodi yn ysgrifenedig, naill ai yn gyffredinol neu yn benodol, gan awdurdod bwyd neu, yn ôl y digwydd, awdurdod iechyd porthladd i weithredu mewn materion sy'n codi o dan y Rheoliadau hyn.

(2) Mae i unrhyw ymadrodd arall a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn, ac y mae'r ymadrodd Saesneg sy'n cyfateb iddo yn cael ei ddefnyddio yn Rheoliad y Comisiwn neu yn Rheoliad y Comisiwn 124/2009, yr un ystyr yn y Rheoliadau hyn ag sydd i'r ymadrodd Saesneg cyfatebol yn Rheoliad y Comisiwn.

(3) Oni nodir fel arall, mae unrhyw gyfeiriad at Erthygl â Rhif yn gyfeiriad at yr Erthygl sy'n dwyn y Rhif hwnnw yn Rheoliad y Comisiwn.

(4) Mae unrhyw gyfeiriad at yr Atodiad yn gyfeiriad at yr Atodiad i Reoliad y Comisiwn fel y gellir diwygio'r Atodiad hwnnw o bryd i gilydd, ac mae unrhyw gyfeiriad at Reoliad y Comisiwn i'w ddehongli'n unol â hynny.

Tramgwyddau a chosbau

3.—(1) Yn ddarostyngedig i'r trefniadau trosiannol a gynhwysir yn Erthygl 11 ac yn Erthygl 2 o Reoliad y Comisiwn 629/2008, mae person sy'n mynd yn groes i unrhyw un o'r darpariaethau Cymunedol a bennir ym mharagraff (2), neu'n methu â chydymffurfio ag unrhyw un ohonynt, yn euog o dramgwydd.

(2) Y darpariaethau a grybwyllwyd ym mharagraff (1) yw —

(**4**) 1984 p.22.
(**5**) OJ Rhif L364, 20.12.2006, t.5. Mae'r Rheoliad hwn wedi'i ddiwygio gan Reoliadau'r Comisiwn (EC) Rhif au 1126/2007 (OJ Rhif L255, 29.9.2007, t.14), 565/2008 (OJ Rhif L160, 19.6.2008, t.20) a 629/2008 (OJ Rhif L173, 3.7.2008, t.6).
(**6**) OJ Rhif L173, 3.7.2008, t.6.
(**7**) OJ Rhif L40, 11.2.2009, t.7.

(a) Erthygl 1(1), (gwaharddiad rhag dodi ar y farchnad ddeunyddiau bwyd sy'n cynnwys halogion uwchlaw'r terfynau rhagnodedig sydd wedi'u cynnwys yn yr Atodiad), fel y'i darllenir gyda'r Atodiad ac, yn achos cnau daear, cnau, ffrwythau sych ac indrawn, gydag Erthygl 4;

(b) Erthygl 3 (gwaharddiadau rhag defnyddio, cymysgu a dadwenwyno);

(c) Erthygl 1(1) o Reoliad y Comisiwn 124/2009 (gwaharddiadau ar farchnata neu gymysgu bwydydd sy'n cynnwys cocsidiostatau neu histomonostatau ar lefelau uwchlaw'r terfynau rhagnodedig).

(3) Mae unrhyw un a gaiff ei gollfarnu o dramgwydd o dan baragraff (1) yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol.

Gorfodi ac awdurdodau cymwys

4.—(1) Mae'n ddyletswydd ar bob awdurdod bwyd o fewn ei ardal a phob awdurdod iechyd porthladd o fewn ei ddosbarth weithredu a gorfodi'r Rheoliadau hyn a Rheoliad y Comisiwn a Rheoliad y Comisiwn 124/2009.

(2) Yr awdurdod cymwys at ddibenion —

(a) Erthygl 2(2) (cyfiawnhad gweithredwyr busnes bwyd dros ffactorau crynodi neu wanedu), a

(b) Erthygl 1(1) o Reoliad y Comisiwn 124/2009 (ynghylch y ddyletswydd i ymchwilio i'r rhesymau dros yr halogiad)

yw'r awdurdod y mae dyletswydd arno i orfodi o dan baragraff (1).

Cymhwyso amryfal adrannau o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990

5.—(1) Mae darpariaethau canlynol y Ddeddf yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn gyda'r addasiad bod unrhyw gyfeiriad yn y darpariaethau hynny at y Ddeddf neu Ran ohoni i'w ddehongli fel cyfeiriad at y Rheoliadau hyn —

(a) adran 3 (rhagdybiaethau fod bwyd wedi'i fwriadu ar gyfer ei fwyta gan bobl);

(b) adran 20 (tramgwyddau oherwydd bai person arall);

(c) adran 21 (amddiffyniad diwydrwydd dyladwy), fel y mae'n gymwys at ddibenion adran 14 neu 15;

(ch) adran 30(8) (sy'n ymwneud â thystiolaeth ddogfennol);

(d) adran 33(1) (rhwystro etc. swyddogion);

(dd) adran 33(2), gyda'r addasiad bod y cyfeiriad at "any such requirement as is mentioned in subsection (1)(b) above" i'w ystyried yn gyfeiriad at unrhyw ofyniad a grybwyllir yn adran 33(1)(b) fel y'i cymhwysir gan is-baragraff (d);

(e) adran 35(1) (cosbi tramgwyddau) i'r graddau y mae'n ymwneud â thramgwyddau o dan adran 33(1) fel y'i cymhwysir gan is-baragraff (d);

(f) adran 35(2) a (3), i'r graddau y mae'n ymwneud â thramgwyddau o dan adran 33(2) fel y'i cymhwysir gan is-baragraff (dd);

(ff) adran 36 (tramgwyddau gan gyrff corfforaethol);

(g) adran 36A (tramgwyddau gan bartneriaethau Albanaidd); ac

(ng) adran 44 (amddiffyn swyddogion sy'n gweithredu'n ddidwyll).

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), mae adran 9 o'r Ddeddf (arolygu a chymryd bwyd amheus i feddiant) yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn fel pe bai'n darllen fel a ganlyn —